ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	10 Mehefin 2015
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706066
TESTUN:	Diweddariad o God Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gan roi sylwadau a dderbyniwyd i Aelodau yn dilyn eu penderfyniad yn ymwneud â gwisgo siorts yn y cyfarfod blaenorol

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Aelodau i ystyried a oes angen unrhyw gamau pellach yn dilyn y penderfyniad i gymeradwyo Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn y cyfarfod blaenorol.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y cafodd Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ei drafod yn y Pwyllgor Trwyddedu ar 4 Mawrth 2015. Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cod gwisg arfaethedig gydag un newid i baragraff 4.2.ii o'r Cod Gwisg i "ni chaniateir gwisgo siorts" a rhoi'r Cod Gwisg ar waith o 1 Mai 2015.

4.2 Hysbyswyd pob deiliad trwydded o'r penderfyniad hwn mewn Newyddlen a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

4.3 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol yr ymgynghorwyd yn eang ar y Cod Gwisg

gan y Swyddogion tra'r oedd yn y cyfnod drafft. Anfonwyd dogfennau

4.4 ymgynghori at bob deiliad trwydded a chynhaliwyd gweithdy er mwyn i yrwyr drafod materion. Amlinellodd yr ymgynghoriad gynnig i ganiatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin a'r rhesymau pam y gall fod yn amhriodol i yrwyr wisgo siorts uwchben y pen-glin.

4.5 Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod pawb a oedd yn bresennol yn y gweithdy, er mai dim ond chwe gyrrwr oedd yno, yn cytuno â'r cynnig, a chafwyd un ymateb ysgrifenedig y tu allan i'r gweithdy ac roedd hyn i gefnogi gwaharddiad llwyr ar wisgo siorts.

4.6 Ar ddiwedd mis Ebrill, yn union cyn gweithredu, cafwyd diddordeb sylweddol gan y cyfryngau o ran y penderfyniad i wahardd gwisgo siorts wrth i yrwyr tacsi dynnu sylw at fodolaeth deiseb.

4.7 Cafodd y ddeiseb, a elwir "Deiseb i Yrwyr Tacsi yn Sir Ddinbych Barhau i Wisgo Siorts", ei throsglwyddo i'r Cyngor ym mis Mai 2015 ac mae'n cynnwys tua 500 o lofnodion, ac mae rhai ohonynt hefyd wedi rhoi sylwadau ar y penderfyniad i wahardd siorts.

5. YSTYRIAETH

5.1 O ystyried geiriad y cod gwisg arfaethedig gwreiddiol yn amlinellu siorts hyd at y pen-glin, efallai yr hoffai'r Aelodau ystyried a roddwyd digon o ymgynghoriad neu drafodaeth i wahardd siorts

6. ARGYMHELLIAD

6.1 Efallai y bydd aelodau'n dymuno cymryd rhai o'r camau canlynol:

- Gadael y Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat fel y cytunwyd ar 4 Mawrth, 2015
- Gofyn i Swyddogion ddiwygio'r Cod Gwisg er mwyn caniatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin
- Gofyn i Swyddogion ddiwygio'r Cod Gwisg er mwyn caniatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin, ond bod yn fwy cyfarwyddol, h.y. dim siorts denim na siorts chwaraeon
- Gofynnwch i Swyddogion gynnal ymgynghoriad byr gyda deiliaid trwyddedau ac adrodd yn ôl gyda'r canfyddiadau er mwyn cael penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.